

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA

DARPARIAETHAU MEWN PERTHYNAS Â RHEOLAETHAU ARIANNOL AR BRIF GWNSTABLIAID YNG NGHYMURU

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Gellir gweld y Bil yn: [Bill Documents - Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill 2013-14 – UK Parliament Website](#)

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; annog perchnogion cŵn i ymddwyn yn gyfrifol; mynd i'r afael â'r defnyddio arfau tanio gan gangiau a grwpiau troseddau cyfundrefnol; gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; a gwella safonau proffesiynol yr heddlu.
4. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cywasgu'r 19 gorchymyn presennol o fewn 6 gorchymyn newydd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; yn darparu i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol y gallu i sicrhau y gweithredir; yn caniatáu adfeddiannu gorfodol pan fo deiliad tenantiaeth ddiogel yn torri un o'r gorchymynion newydd; yn diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan estyn ei darpariaethau i eiddo preifat; yn cynyddu'r gosb uchaf am fewnforio ac allforio arfau tanio; yn creu'r drosedd newydd o feddiannu arfau tanio ar gyfer eu gwerthu neu eu trosglwyddo; yn gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; yn creu Coleg Plismona newydd a hefyd yn gwneud darpariaethau ynglŷn â rheolaethau ariannol ar brif gwnstabiliaid, ac yn estyn pwerau a chylch gwaith Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu

Darpariaethau yn y Bil y ceisir caniatâd ar eu cyfer

5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i gymhwyso adrannau 6, 7, 9 -11, 13 -18, 20 -22 a 24(1) a (2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003"), sy'n pennu fframwaith ar gyfer rheolaethau ar gyllid cyfalaf awdurdodau lleol, i Brif Gwnstabiliaid.

6. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru.

7. Bydd cymhwyso'r adrannau hyn o Ddeddf 2003 i Brif Gwnstabliaid:

- yn golygu na fydd gofyn i roddwyr benthyg wirio a oes gan Brif Gwnstabliaid y pŵer ai peidio i fenthyca arian;
- yn effeithio ar y modd y defnyddir derbyniadau cyfalaf gan Brif Gwnstabliaid;
- yn gosod amodau ar drefniadau i Brif Gwnstabliaid fenthyca arian;
- yn gwneud yn ofynnol bod Prif Gwnstabliaid yn darparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gan Weinidogion Cymru ynglŷn â chyllid cyfalaf a chyfrifon;
- yn gwneud yn ofynnol bod Prif Gwnstabliaid yn rhoi sylw priodol i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â chyllid cyfalaf a chyfrifon;
- yn cynyddu'r cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau a chanllawiau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â threfniadau cyfrifyddu, er mwyn cynnwys prif gwnstabliaid.

Nodyn: Mae Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn cynnwys pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau perthnasol Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gymwys mewn perthynas â phrif gwnstabliaid fel y maent yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid pwerau newydd i wneud rheoliadau yw'r rhain a byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i gael eu diddymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003.

8. Penodir Prif Gwnstabl gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau (CHTh) ar gyfer yr ardal heddlu dan sylw, ac y mae Prif Gwnstabl yn atebol i'r CHTh am y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau. Mae darpariaeth yn y Bil sy'n cyfyngu hefyd ar bwerau Prif Gwnstabl i fenthyca arian, ac yn gwahardd Prif Gwnstabl rhag ymuno mewn trefniadau credyd, ac eithrio at ddibenion gronfa allanol a ystyrir yn briodol.

9. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud ag "archwilio, craffu, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus archwiliadwy" ("*audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities*") o dan baragraff 14 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn

10. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil Seneddol hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur ar gyfer cymhwyso'r

darpariaethau hyn i Gymru, gan wneud Prif Gwnstablaid yn ddarostyngedig i'r un rheolaethau ag awdurdodau lleol.

Goblygiadau ariannol

11.Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru

Lesley Griffiths AC

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Mai 2013